

Cydweithio i gael y gorau o'r ystad gyhoeddus
Working together to make the best use of the public estate

Enghraifft o'r Broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol



Enghraifft o'r Broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Cyfnod	Gofynion	Pwy sy'n penderfynu
<p>Datgan Ddiddordeb Cyn Cais a Chyfnod 1</p> <p>Mae'r Datganiad o Ddiddordeb yn cael ei gyflwyno i'r Corff/Awdurdod Trosglwyddo i'w asesu ac, os bydd angen, rhoddir cyngor a chymorth pellach i baratoi datganiad llawn a ffurfiol o ddiddordeb gyda Chynllun Busnes cynhwysfawr.</p> <p>Er mwyn bod yn dryloyw ac yn deg â'r gymuned gyfan, bydd cyflwyno'r Achos Busnes Amlinellol yn sbarduno'r Cyngor i hysbysebu am gyfnod o hyd at 4 wythnos fod yr eiddo perthnasol ar gael. Yn dilyn hynny bydd raid i bob parti â diddordeb gyflwyno Achos Busnes Amlinellol i'w ystyried a gwahoddir sefydliadau sy'n dderbyniol i symud ymlaen i'r Cyfnod 1 ffurfiol.</p>	<p>Cynllun Busnes Amlinellol</p> <p>(Dogfen: Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol)</p> <ul style="list-style-type: none">– Cefndir y Cyngor Cymuned neu Sefydliad Trydydd Sector;– Gallu a phrofiad o ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg;– Pam fod angen yr ased;– Buddion i'r gymuned, Sefydliad Trydydd Sector a'r Cyngor;– Gwiriad lechyd diwydrwydd dyladwy Sefydliadol;– Cefnogaeth oddi wrth y Gymuned, Partneriaid a Rhanddeiliaid. <p>Os bydd yr Achos Busnes Amlinellol yn cael ei wrthod i ddechrau, bydd y Sefydliad Trydydd Sector yn cael gwybod beth yw'r rhesymau ac, os yn berthnasol, bydd cefnogaeth oddi wrth y Swyddog Datblygu Economaidd y Cyngor Gwirfoddol Lleol ar gael er mwyn gwella'r cais i'r safon ofynnol.</p> <p>Efallai y bydd cymorth ar gael gan yr Awdurdod Lleol/Cyngor Gwirfoddol Lleol a fydd un ai'n gallu rhoi cefnogaeth, os bydd y gallu/sgiliau ar gael, neu gyflwyno i gael cefnogaeth gan sefydliad arall yn y Trydydd Sector i wneud yn siŵr y bydd y Cyngor Cymuned/Sefydliad Trydydd Sector yn cyflwyno Cynllun Busnes Manwl ar y ffurf gywir gan gynnwys darparu unrhyw wybodaeth sydd ar gael ynghylch yr ased.</p>	<p>Awdurdod Lleol/Cyngorau Gwirfoddol Siriol.</p> <p>Cyfnodau amser: Dim mwy na 4-6 wythnos.</p>

Cyfnod	Gofynion	Pwy sy'n penderfynu
<p>Cyfnod 2: Datganiad Ffurfiol o Ddiddordeb</p> <p>Ar argymhelliad y Corff Trosglwyddo bydd Datganiad Ffurfiol o Ddiddordeb yn cael ei gyflwyno i'r Pennaeth Ystadau; a</p> <p>Rheoli Asedau'n Strategol gan y Cyngor Tref neu Gymunedl/Sefydliad Trydydd Sector/Grŵp Cymunedol.</p>	<p>Cynllun Busnes</p> <p>Rhaid cyflwyno Cynllun Busnes Manwl, ar y ffurf gywir, gydag o leiaf 3 blynedd o ragolygon ariannol, cynllun cynaliadwyedd ac arolwg ymgynghoriad fel rhan o Ddatganiad Ffurfiol o Ddiddordeb.</p> <p>Os yw pob dogfen yn gywir bydd y Sefydliad Trydydd Sector yn cael gwahoddiad i symud ymlaen i Ran 3. Os na fydd y cais yn derbyn cefnogaeth, cyflwynir eglurhad llawn.</p>	<p>Awdurdod Lleol/Cynghorau Gwirfoddol Siriol.</p> <p>Pennaeth Ystadau a Rheoli Asedau'n Strategol.</p> <p>Cyfnodau amser: tua 1 wythnos.</p>
<p>Cyfnod 3: Asesiad Llawn o Gynllun Busnes Manwl</p>	<p>Cyflwyno ac Asesiad o'r Cynllun Busnes Manwl</p> <p>Asesiad o'r Cynllun Busnes Manwl gan dalu sylw penodol i:</p> <ul style="list-style-type: none"> – Ddadansoddi anghenion a'r defnydd a ragwelir; – Math o drosglwyddiad a geisir a pham; – Canlyniadau a buddion a gynllunnir a sut y byddant yn cael eu mesur/monitro; – Gallu a phrofiad o ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg; – Manylion unrhyw bartneriaeth/cydweithio sydd ar y gweill; – Hanes blaenorol o ddarparu gwasanaeth/rheoli eiddo; – Gallu i reoli'r ased; – Cynllunio Cynaliadwyedd Ariannol. <p>Adrodd i'r Bwrdd Rheoli Asedau Strategol Corfforaethol gydag asesiad manwl o:</p> <ul style="list-style-type: none"> – Buddion i'r gymuned, y Sefydliad Trydydd Sector a sut maen nhw'n berthnasol i ddarparu blaenoriaethau'r cyngor; – Risgiau mewn perthynas â gallu ariannol a threfniadol, llywodraethu a'r gallu i reoli'r ased; 	<p>Pennaeth Ystadau a Rheoli Asedau Strategol</p> <p>Mewn ymgynghoriad â'r:</p> <ul style="list-style-type: none"> – Pennaeth Adfywio Cymunedol; – Pennaeth(iaid) Gwasanaeth(au) perthnasol; – Aelodau Ward; – Aelod Gweithredol. <p>Bwrdd Rheoli Asedau Strategol Corfforaethol</p> <p>Yn dilyn ymgynghoriad gyda:</p> <ul style="list-style-type: none"> – Pennaeth Adfywio Cymunedol; – Pennaeth(iaid) Gwasanaeth(au) perthnasol; – Pennaeth Cydymffuriad Cyfreithiol a Corfforaethol; – Prif Swyddog Cyllid. <p>Cyfnodau amser: Dim mwy nag 8 wythnos.</p>

Cyfnod	Gofynion	Pwy sy'n penderfynu
	<ul style="list-style-type: none"> - Efallai golli derbynneb cyfalaf ac incwm presennol neu gostau cyfle eraill i'r Cyngor yn codi o'r trosglwyddiad; - Sefydlu lefel y disgownt (os yn berthnasol). Mae'r Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003 yn berthnasol. Dylai ymgeiswyr hefyd ofyn am gael prisio'r eiddo; - Telerau trosglwyddo ac unrhyw broblemau cyfreithiol gan gynnwys TUPE; - Trefniadau monitro e.e. Cytundeb Lefel Gwasanaeth. 	
<p>Cyfnod 4: Argymhellion, Penderfyniad a Chwblhau</p>	<p>Cymeradwyaeth ddirprwyedig neu adroddiad i'r Pwyllgor Craffu a'r Pwyllgor Gwaith yn unol â'r Polisi Gwaredu a Chaffael</p>	<p>Pennaeth Cydymffurfiad Cyfreithiol a Chorfforaethol.</p> <p>Pwyllgor Craffu.</p> <p>Adnoddau.</p> <p>Pwyllgor Gweithredol.</p> <p>Cyfnodau amser: Yn dibynnu ar gymhlethdod 8-16 wythnos</p> <p>Cyfanswm y Cyfnodau Amser: 21-31 wythnos</p>

Noder:

Mae'n bwysig bod y cyfnodau amser yn realistig ac yn rhoi digon o amser i'r ymgeiswyr baratoi unrhyw ddogfennau sydd eu hangen megis cynllun busnes. Mae hyblygrwydd yn bwysig, gan y gallai'r cyfnodau amser fod yn ddibynnol ar ffactorau allanol megis penderfyniadau ar arian grant. Mae'n cael ei gydnabod, a dylai pob parti gofio hynny, y gallai trosglwyddiadau mawr gymryd 12-24 mis i ddatrys problemau cymhleth a datblygu pecynnau ariannu cyfan.